

2013 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Narberth Road a Fishguard Road,
Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn
Cyflymder 40 MYA) 2013

Gwnaed 1 Hydref 2013

Yn dod i rym 3 Hydref 2013

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Llundain – Abergwaun (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Narberth Road a Fishguard Road, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2013.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau hynny o'r gefnffordd yn Hwlffordd yn Sir Benfro a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Dirymu

3. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Narberth Road a Fishguard Road, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2003(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion
Cymru

Dyddiedig 1 Hydref 2013

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 2003/3138/Cy.302

YR ATODLEN

i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt sy'n 157 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir Cartlett hyd at bwynt ar Narberth Road sy'n 1196 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir Cartlett.

(ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan Scotchwell hyd at bwynt ar Fishguard Road sy'n 125 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Scotchwell Road.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (NARBERTH ROAD A FISHGUARD ROAD, HWLFFORDD, SIR BENFRO) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA) 2013

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi sy'n dod i rym ar 3 Hydref 2013.

Effaith y Gorchymyn fydd cadw terfyn cyflymder 40 mya ar y darnau hynny o Gefnffordd yr A40 Llundain – Abergwaun yn Hwlffordd yn Sir Benfro a bennir ym mhwyntiau i a ii o'r Atodlen i'r Hysbysiad hwn ac ymestyn y terfyn cyflymder 30 mya presennol o Gylchfan Salutation Square fel a bennir ym mhwynt iii o'r Atodlen. Bydd y Gorchymyn yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Narberth Road a Fishguard Road, Hwlffordd, Sir Benfro) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2003.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 1 Hydref 2013, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn hwn a'r plan cysylltiedig yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Neuadd y Sir, Cyngor Sir Penfro, Hwlfordd, Sir Benfro SA61 1TP neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Traffig Parhaol', '2013').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

(i) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt sy'n 157 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir Cartlett hyd at bwynt ar Narberth Road sy'n 1196 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir Cartlett.

(ii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt cylchfan Scotchwell hyd at bwynt ar Fishguard Road sy'n 125 o fetrau i'r gogledd o gylchfan Scotchwell.

Terfyn Cyflymder 30 MYA diwygiedig

(iii) Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Gylchfan Salutation Square hyd at bwynt sy'n 157 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir Cartlett.

